# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 25 TACHWEDD 2020

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones, C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, S.Phillips, H.Jenkins, A.Evans, K.Jones, A.Jarrett, S.Brennan, R.George, D.Griffiths, M.Roberts, Ms.J.Smith, A.Thomas a/ac P.Walker

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Jones | Parthed: Gorchymyn Terfynau Cyflymder 20MYA ym Mhenscynor, Cil-ffriw (Dirymu) 2020 a Mesurau Tawelu Traffig ym Mhenscynor, Cil-ffriw gan ei bod wedi mynegi pryderon ynghylch y mesurau traffig cyflymder. Roedd o'r farn bod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A Wingrave | Parthed: Gorchymyn Terfynau Cyflymder 20MYA ym Mhenscynor, Cil-ffriw (Dirymu) 2020 a Mesurau Tawelu Traffig ym Mhenscynor, Cil-ffriw gan fod y cynnig o fewn ei ward. Nid oedd yn ystyried ei budd yn niweidiol.<br><br>Parthed: Ceisiadau amrywiol am gronfa grant gan ei bod yn aelod o Gyngor Tref Coed-ffranc. Nid oedd yn ystyried ei budd yn niweidiol. |
| Y Cynghorydd M Harvey | Parthed: Ceisiadau amrywiol am y Gronfa Grant gan ei fod yn Faer Cyngor Tref Coed-ffranc.  Nid oedd yn ystyried ei fudd yn niweidiol. |

3. **PRIF GYNLLUN PARC GWLEDIG YSTÂD Y GNOLL**

**Penderfyniadau**

1. Cytuno ar brosiectau cynllun gweithredu profiad ymwelwyr wedi'u blaenoriaethu erbyn 31 Mawrth 2021 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd (paragraffau 19.1 i 19.2).

2. Bydd gweithgor swyddogion yn cael ei ffurfio i gysylltu â phartneriaid allweddol ar gyflawni'r camau gweithredu sy'n weddill o fewn y cynllun gweithredu profiad ymwelwyr dros gyfnod o 3-5 mlynedd.

3. Bydd swyddogion yn cynnal ymchwil pellach i'r ffrydiau ariannu sydd ar gael ar gyfer y bwriad i ddatblygu llety i ymwelwyr ar y safle, yn ogystal â chynnal ymarfer mynegiant o ddiddordeb gyda'r sector preifat.

4. Bydd canfyddiadau'r ymarferion hyn yn cael eu dwyn yn ôl i'r aelodau er mwyn gallu cytuno ar fodel cyflawni.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i hwyluso'r gwaith o wella cyfleusterau a mynediad ym Mharc Gwledig Ystâd y Gnoll, gan alluogi'r parc i barhau i ddenu cynulleidfa leol wrth gynyddu ei gyfraniad i'r economi ymwelwyr hefyd drwy ddatblygu llety i ymwelwyr ar y safle.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd arolwg fel rhan o'r brif broses gynllunio gyda'r gymuned leol, ymwelwyr presennol. Cafwyd 818 o ymatebion, adlewyrchwyd yr adborth yng nghynllun gweithredu profiad ymwelwyr fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd gweithdai hefyd gydag aelodau lleol, staff y parc, Cyfeillion Parc Gwledig y Gnoll a Coed Cadw i ofyn am eu barn ar sut y dylai'r parc ddatblygu.

4. **PLEIDLAIS ARDAL GWELLA BUSNES CASTELL-NEDD**

**Penderfyniadau:**

1. Bydd yr ail bleidlais ar gyfer BID Castell-nedd yn cael ei chefnogi gan y cyngor i helpu i adfer canol trefi.

2. Bydd y cyngor yn gweithredu fel deiliad y bleidlais at ddibenion yr ail bleidlais.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Mae BID Castell-nedd wedi cael cefnogaeth dros y 5 mlynedd diwethaf ac wedi gwella canol y dref. O ganlyniad, cefnogwyd BID ym Mhort Talbot gan CBSCNPT yn 2019. Mae BID Castell-nedd yn nesáu at ddiwedd ei dymor (21 Mawrth) ac mae'n awyddus i barhau.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Ymgynghorwyd â busnesau dros y ddau fis blaenorol gan 'Neath Inspired' i roi gwybod iddynt am y sefyllfa bresennol ac i benderfynu pa welliannau ar gyfer y tymor nesaf fyddai'n fuddiol. Cynhaliwyd holiadur canfyddiad busnes i benderfynu pa fusnesau yr hoffent fynd i'r afael â hwy a pha welliannau yr hoffent eu gweld. Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i ffurfio eu cynnig pum mlynedd nesaf a fydd ar gael i bob busnes yn yr ardal BID cyn y bleidlais.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gyda dros 50% o dalwyr ardoll, ac roedd 87 o'r 125 yr ymgynghorwyd â hwy wedi dychwelyd yr holiadur. Dangosodd y canlyniadau hynny fod 72% o blaid parhau â'r BID, nid oedd 10% o blaid ac roedd 13% heb benderfynu. Methodd 5% â rhoi sylwadau ar y cwestiwn penodol hwnnw.

5. **GORCHYMYN TRAFFIG 2020 A MESURAU ARAFU TRAFFIG YN ARDAL PENSCYNOR, CIL-FFRIW (DIRYMIAD) (TERFYN CYFLYMDER 20 MYA)**

(Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd D Jones ei budd yn yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod am y drafodaeth a'r bleidlais ar ôl hynny.)

**Penderfyniadau:**

1. Bydd y gwrthwynebiadau'n cael eu cadarnhau gyda mesurau lleihau cyflymder parhaol amgen yn cael eu ceisio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Gan Bwyll.

2. Cynghori Llywodraeth Cymru yn unol â hynny.

3. Hysbysu gwrthwynebwyr o'r penderfyniad.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Lleihau cyflymder traffig yn barhaol er budd diogelwch ar y ffyrdd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ym mis Medi 2020 gyda thua 30 eiddo yn derbyn llythyrau wedi'u dosbarthu â llaw gyda chynllun fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

## 6. CEISIADAU I'R GRONFA GRANTIAU AMRYWIOL

**Penderfyniadau:**

1. Bydd grant o £800 y flwyddyn yn cael ei ddarparu, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rhent o fis Ebrill 2021 i Ymddiriedolwyr Clwb Bechgyn a Merched Baglan, Clwb Pêl-droed Baglan Dragons a Chlwb Criced Baglan fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Bydd grant o £125 y flwyddyn yn cael ei ddarparu, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rhent o fis Ebrill 2021 i Siglen Rhianna fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Bod grant o £1,800 y flwyddyn yn cael ei ddarparu, yn amodol ar adolygiad yn unol ag adolygiadau rhent o fis Ebrill 2021 i Gyngor Tref Coed-ffranc fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi cytuno ar gymorth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grant.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 7. OFFER TECHNOLEG GWYBODAETH I YSGOLION

**Penderfyniadau:**

1. Bydd y Rheolwr Gwasanaeth TGCh yn gwneud archebion drwy blatfform Llywodraeth Cymru i brynu dyfeisiau ar gyfer ysgolion fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Bydd y cyllid ychwanegol hwnnw o £303,500 ar gael o Raglen Gyfalaf yr Awdurdod i ariannu'r dyfeisiau ychwanegol gofynnol.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i ddarparu cymorth TG i ddysgwyr fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith.

## 8. DERBYN I YSGOLION CYMUNEDOL 2022/2023

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo ymgynghori ar bolisi derbyn arfaethedig ysgolion cymunedol 2022/2023 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i gyflawni dyletswyddau statudol a chanllawiau arfer da mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghoriad:**

Mae'n ofynnol i'r cyngor, fel awdurdod lleol, ymgynghori bob blwyddyn ar y trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgolion hynny y mae'n awdurdod derbyn iddynt.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol. Cyfrifoldeb y cyrff llywodraethu perthnasol yw derbyn i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. Ffydd).

Nodir gofynion yr ymgynghoriad yng Nghôd Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yn achos y cyngor hwn, mae angen ymgynghori â'r canlynol:

- cyrff llywodraethu ysgolion cymunedol
- cyrff llywodraethu gwirfoddol a gynorthwyir (h.y. ysgolion ffydd)
- pob awdurdod lleol cyfagos

Yn ogystal â hyn, dylai'r cyngor hefyd ymgynghori â'r Fforwm Derbyn ar gyfer yr ardal berthnasol. Daw'r broses ymgynghori i ben ar 29 Ionawr 2021.

## 9. EITEMAU BRYS

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif 10 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser

## 10. AMSERAU AGOR Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD 2020. LLYFRGELLOEDD, THEATRAU, CANOLFANNAU CYMUNEDOL, PARC GWLEDIG MARGAM, CANOLFANNAU HAMDDEN A PHYLLAU NOFIO

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo amseroedd agor a chau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd fel y nodir yn Atodiad 1 a 2 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Sicrhau bod cyfleusterau'r cyngor ar gael i'r cyhoedd pan fydd galw iddynt fod ar agor a galluogi rheolwyr i wneud trefniadau priodol gyda staff rheng flaen o ran eu gwyliau blynyddol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

12. **TREFNIADAU ARIANNOL Y GWASANAETHAU HAMDDEN (WEDI'U HEITHRIO O DAN BARAGRAFF 13)**

**Penderfyniadau:**

1. Nodi telerau'r Cytundeb Indemniad a wnaed rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Hamdden Celtic.

2. Cymeradwyo cynyddu'r Ffi Reoli sy'n daladwy i Hamdden Celtic hyd at ond heb fod yn fwy na £1.8m ynghyd â TAW, gyda thaliadau'n cael eu rhyddhau'n fisol yn dilyn cyfarfod adolygu rhwng y cyngor a Hamdden Celtic.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau bod trefniadau addas ar waith i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau hamdden yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**